

Amgueddfa Lechi Cymru

Ers 1994, rydym wedi dyfarnu dros £600m o arian y Loteri Genedlaethol a chyllid arall i 3,600 o brosiectau yng Nghymru.

O'n harfordiroedd a'n cestyll i'n tirweddau, ein llenyddiaeth ac un o'r ieithoedd llafar hynaf yn Ewrop, mae gan Gymru dreftadaeth hynafol a chwedlonol.

Rydym yn falch o chwarae rhan yn y gwaith o warchod a dathlu dinasoedd bywiog, tirweddau hardd, safleoedd hanesyddol a diwylliannau amrywiol y wlad. Mae'n rhan o'n gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Yr haf hwn, mae ein tîm yng Nghymru yn mynd i Wrecsam i gysylltu â chymunedau ac arddangos y gwaith rydyn ni'n ei gefnogi yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cliciwch yma i weld ein cynlluniau am yr wythnos.

Mynnwch ysbrydoliaeth ar gyfer eich prosiect

Edrychwch isod ar astudiaethau achos prosiect a'r newyddion diweddaraf o'ch ardal.

Expand All accordions

Gwneud cais am ariannu

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar agor – os oes gennych syniad am brosiect yng Nghymru, byddai'n bleser gennym glywed oddi wrthych. Mae grantiau ar gael o £10,000 hyd at £10m.

Cael gwybod mwy a gweld pa ariannu sydd ar gael.

Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd chwech)

Nod y gronfa hon, sy'n dyfarnu grantiau rhwng £250,000 ac £1miliwn, yw cryfhau cydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir, d?r croyw a morol gwarchodedig, ac adeiladu gallu sefydliadau i gyflymu adferiad byd natur ac ymgysylltu â chymunedau.

Mwy o wybodaeth.

Gwyliwch ein fideo i'ch helpu i wneud cais am grant rhwng £10,000 a £250,000

Expand All accordions

Digwyddiadau sydd ar y gweill

Mae ein gweithdai ariannu a'n sesiynau cynghori rheolaidd yn gyfle gwych i gael gwybod am ein cyllid, cael awgrymiadau ar sut i wneud cais da a rhwydweithio gyda sefydliadau eraill o'ch ardal.

Dysgwch am ddigwyddiadau sydd ar y gweill yma.

Expand All accordions

Cysylltwch â ni

Ydych chi'n ystyried gwneud cais i ni am grant hyd at £250,000? Cyflwynwch Ymholiad Prosiect i dderbyn adborth ar eich syniad am brosiect cyn i chi wneud cais llawn. Byddwn yn cysylltu'n ôl â chi o fewn 10 diwrnod gwaith.

Cyflwyno Ymholiad Prosiect

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr.

Manylion cyswllt

E-bost: cymru@heritagefund.org.uk

Rhif Ffôn: 029 2034 3413 (Dydd Llun i Gwener, 9.00am–5.00pm)

Cyfeiriad:

Clockwise Offices, T? Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd, CF24 0EB

Anfonwch unrhyw eitemau drwy e-bost at eich cyswllt neu drwy'r prif gyfeiriad: cymru@heritagefund.org.uk

Mae gennym dîm cwbl ddwyieithog yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf. Rydym yn croesawu galwadau ffôn (Opsiwn 1 i siarad ag aelod o staff yn Gymraeg), e-byst a llythyrau yn Gymraeg ac yn Saesneg a ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi ychwanegol wrth ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am y Gymraeg ac i glywed mwy am ein cynnydd presennol wrth i ni ddiweddaru ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol, ewch i'r dudalen yma.